FAMILIES ACHIEVING CHANGE TOGETHER

# FACT

## Gwybodaeth i rieni



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

## Beth yw nodau FACT?

Paratoi cynllun fel teulu i'ch helpu chi a'ch plentyn/plant i oresgyn anawsterau a chyflawni'r nodau y cytunwyd arnyn nhw gyda help asiantaethau cymorth.

## Pwy rydym yn eu helpu?

- Plant, pobl ifanc (hyd at 18 oed) a'u teuluoedd o Fro Morgannwg, a allai elwa ar gefnogaeth ychwanegol i oresgyn anawsterau a gwneud newid cadarnhaol.

## Sut rydym yn eu helpu?

Yn dilyn yr atgyfeiriad:

- Fe wnawn ni gwrdd â chi fel teulu, fel y gallwn wrando ar eich cryfderau a cheisio eu deall, gan drafod rhai o'r anawsterau rydych o bosibl eisiau rhoi sylw iddyn nhw.
- Gyda'ch caniatâd, siarad gydag asiantaethau lleol a allai gynnig cefnogaeth berthnasol.
- Darparu cyfle i chi gwrdd â'r asiantaethau hyn a chreu cynllun a all eich helpu chi i gyflawni nodau eich teulu.
- Cadw mewn cysylltiad â'r asiantaethau y cytunwyd ar gysylltu â nhw, ac adolygu'r cynllun cefnogi i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni.
- Eich helpu chi fel teulu i gynnal y newidiadau hyn.

## Manylion cysylltu:

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, neu i siarad gydag aelod o staff, byddai croeso i chi gysylltu â Thîm FACT ar:

**Tel: 01446 729640**
**www.valeofglamorgan.gov.uk/familiesfirst**

**FACT**
Canolfan Cefnogi'r Gymuned
Cadoxton House
Belle Vue Terrace
Y Barri, CF63 2JQ

